



Ein cyf/Our ref: WQ84413

Rhun ap Iorwerth MS
Member of the Senedd for Ynys Môn
Senedd Cymru

rhun.apiorwerth@senedd.wales

14 Chwefor 2022

Annwyl Rhun

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig WQ84413: *Pa ystyriaeth y bydd y Gweinidog yn ei rhoi i ddileu'r gofyniad i oedolion wisgo masgiau wyneb wrth weithio gyda'r plant ieuengaf mewn gweithgareddau wedi'u trefnu?*

Ymddiheuraf am yr oedi wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Yn yr adolygiad tair wythnos diwethaf o'r rheoliadau coronafeirws, a gwblhawyd ar 10 Chwefror, gwnaethom rai newidiadau i'r rheolau ynghylch gorchuddion wyneb. Roeddwn am eich ateb gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

O 28 Chwefror, byddwn yn dileu'r gofyniad cyfreithiol i oedolion a phlant dros 11 oed wisgo gorchuddion wyneb yn y rhan fwyaf o fannau cyhoeddus dan do, ar wahân i leoliadau manwerthu, trafnidiaeth gyhoeddus a lleoliadau iechyd a gofal.

O 11 Chwefror, rydym hefyd yn diweddarau ein canllawiau i'w gwneud yn glir y gall oedolion dynnu eu gorchuddion wyneb pan fyddant yn gweithio gyda babanod a phlant bach mewn grwpiau babanod a phlant bach.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.